Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Delyn
# Canolfan Gymunedol Orchard Lane
# St. Julians
# Casnewydd
# NP19 7DW

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/11/2014**

## Cyd-destun

Cafodd Cylch Meithrin Y Delyn ei sefydlu yn 2012 ac mae wedi`i leoli yn y lleoliad presennol ers haf 2013. Mae'r Cylch yn cyfarfod mewn neuadd yng Nghanolfan Gymunedol Orchard Lane yn ardal St Julian, Casnewydd, Gwent.

Mae`r lleoliad yn cael ei reoli gan bwyllgor gwirfoddol ac wedi ei gofrestru fel elusen. Mae'n ddarparwr addysg sy`n cael cefnogaeth gan Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar Casnewydd.

Mae'r lleoliad ar agor am un bore a pumb prynhawn yr wythnos yn ystod y tymor ysgol ac yn darparu ar gyfer plant rhwng dwy a phedair oed. Ar adeg yr arolygiad, roedd 15 o blant ar y gofrestr, ac o'r rhain roedd 5 yn blant tair oed. Mae dau o blant yn cael eu hariannu gan yr awdurdod i dderbyn addysg ran amser.

Nid oes gan unrhyw blant ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.

Daw'r holl blant o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Ychydig iawn o blant sy`n dod o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Bu newidiadau sylweddol yn y staff dros y 12 mis diwethaf ac mae`r ddau arweinydd ar y cyd presennol wedi bod yn ei swydd ers dechrau`r tymor ym Medi 2014. Cyflogir gynorthwy-ydd hefyd. Mae gan yr holl staff gymwysterau priodol. Fodd bynnag, mae pob un ohonynt yn dysgu Cymraeg ac ar hyn o bryd mae`r lleoliad wedi'i ddynodi'n leoliad dwyieithog. Yn flaenorol, roedd y lleoliad wedi cael ei nodi`n “Rhagorol” gan y Mudiad.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan yr Arolygydd Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ionawr 2014. Nid yw wedi cael ei arolygu yn flaenorol gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad cyfredol Cylch Meithrin Y Delyn yn dda oherwydd:

- mae`r staff yn gefnogol ac yn ofalgar iawn tuag o`r plant ac yn darparu amgylchedd hapus a chartrefol iddynt;
- mae`r staff yn annog y plant i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu ac i fod yn lwyddiannus;
- mae`r holl blant yn dangos mwynhad ac agweddau da tuag at ddysgu;
- mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos medrau gwrando a siarad sydd wedi`u datblygu`n dda;
- mae`r berthynas yn dda iawn ac mae`r plant yn gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion;
- mae`r ymarferwyr yn darparu profiadau cyfoethog a chyffrous sy`n annog a chymell y plant i fod yn ddysgwyr gweithredol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Cylch Meithrin Y Delyn yn dda oherwydd:

- mae`r arweinyddion ar y cyd yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda;
- mae gan arweinwyr farn glir o`r hyn sydd angen ei wneud i wella;
- mae`r staff yn gweithio`n dda fel tîm gyfa ffocws clir ar gyflawniadau a lles y plant;
- mae`r arweinwyr yn barod i dderbyn newid;
- yr hanes diweddar o weithredu newid a`r welliant i ddarpariaeth y lleoliad;
- mae`r ymarferwyr yn ymateb yn dda i gyngor gan yr awdurdod lleol a`r Mudiad;
- mae`r berthynas gyda rhieni yn dda.

## Argymhellion

Er mwyn gwella`n ymhellach, mae angen i`r lleoliad:

A1 ddefnyddio adnoddau asesu`n fwy effeithiol er mwyn cynllunio gweithgareddau sy`n cyfateb yn dda i oedran a gallu`r plant;

A2 sicrhau bod yr hunanarfarnu a`r cynllunio ar gyfer gwella`n canolbwyntio ar wella safonau cyflawniad y plant;

A3 gwella medrau`r plant yn yr iaith Gymraeg.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd yr awdurdod yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau: Dd/B**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dd/B**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r ymarferwyr yn cyd-weithio`n dda i gynllunio amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu sy`n diddorori ac ennyn diddordeb yr holl blant. Mae`r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn darparu profiadau ymarferol uniongyrchol o ansawdd uchel ar gyfer y plant. Mae`r gweithgareddau sy`n digwydd tu allan yn ategu ac yn cyfoethogi`r cyfleoedd dysgu, fel wrth ddatblygu medrau rhifedd y plant a`u gallu i adnabod rhifau.

Mae`r cynllunio yn darparu profiadau gwerthfawr a gwerth chweil i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae`r plant yn dysgu adnabod eu henwau wrth hunan-gofrestru ac maen nhw`n gwrando'n astud ar oedolion ac yn ymateb yn briodol. Mae pob plentyn yn awyddus i ymateb i gwestiynau ond anaml y maen nhw`n defnyddio'r iaith Gymraeg heb gael eu hannog gan oedolyn. Fodd bynnag, mae eu dealltwriaeth o'r iaith yn datblygu'n dda ac yn well na`u Cymraeg llafar.

Mae'r cynllunio'n cynnwys cyfleoedd da i blant edrych ar lyfrau. Maen nhw`n eu trin yn briodol ac yn dechrau dilyn y stori mewn llyfrau. Mae cyfleoedd da i blant wneud marciau gan gynnwys defnyddio sialc yn ystod gweithgareddau y tu allan. Mae`r cynllunio yn hyblyg ac yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhifedd y plant, fel cyfrif delweddau ar sgrîn cyfrifiadur. Mae'r llinell rif yn yr ardal chwarae y tu allan yn rhoi cyfleoedd i blant adnabod rhif ar ffurf ysgrifenedig. Mae'r cynllunio yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddatblygu eu sgiliau TG. Mae`r plant yn symud eiconau ar sgrin y cyfrifiadur yn fedrus. Maen nhw hefyd yn ymgyfarwyddo â defnyddio cyfrifianellau digidol, gwrando ar storïau ar CD a defnyddio ffonau symudol wrth chwarae rôl.

Mae`r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer gwaith creadigol gan gynnwys defnydd o amrywiaeth o ddeunyddiau gan gynnwys paent. Mae`r plant yn cael cyfleoedd i blannu bylbiau ac i dyfu llysiau yn eu "rhandir" ac i

chwarae rôl, er enghraifft, yn eu "cegin mwd". Er bod y cynllunio yn sicrhau cyfranogiad gweithredol y plant, nid yw'n canolbwyntio`n ddigonol ar ddiwallu anghenion y plant o wahanol oed a gallu. Mewn rhai achosion, nid oes digon o her ar gyfer y plant hŷn.

Mae'r lleoliad yn weithgar wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg, fel yn ystod cofrestru, canu caneuon a hwiangerddi a thrwy drafodaeth anffurfiol yn Gymraeg gyda`r plant. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn gyffredinol yn hyderus yn eu defnydd o'r iaith ac yn anaml iawn y mae`r plant yn defnyddio'r iaith yn eu chwarae.

Mae darpariaeth briodol ar waith i gefnogi dealltwriaeth y plant o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, er enghraifft trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, drwy dynnu llun symbolau o Gymru ac enwi pobl amlwg yng Nghymru.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd y berthynas rhwng yr holl ymarferwyr a'r plant yn dda iawn ac wedi ei seilio ar hoffter a pharch. Mae hyn yn gwneud cyfraniad eithriadol at les plant a`u cynnydd mewn dysgu. Mae gan staff ddealltwriaeth drylwyr o ofynion y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys darparu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion.

Mae gan yr holl ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant ac mae'r rhain yn cael eu bodloni i raddau helaeth iawn yn ymarferol. Mae`r sesiynau`n symud ymlaen ar gyflymder bywiog ac mae`r tasgau yn diddori ac yn cymell y plant. Mae`r plant yn cael eu rheoli'n dda ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn safonau uchel cyson y plant o ymddygiad ac agweddau.

Mae`r ymarferwyr yn mwynhau gweithio gyda`r plant ac yn eu croesawu gydag anwyldeb i bob sesiwn. Mae`r plant yn edrych mlaen yn frwdfrydig i gymryd rhan yn y gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae'r staff yn llwyddo`n dda i sefydlu awyrgylch tawel, cartrefol lle nad oes llais yn cael eu codi. Mae`r plant, yn ôl eu gweithredoedd yn dangos yn eglur eu bod yn gwybod ble i ofyn am gymorth os oes angen.

Mae`r ymarferwyr yn fodelau rôl effeithiol iawn ac mae`r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol priodol. Mae trafodaeth a chwestiynu yn datblygu geirfa`r plant a`u sgiliau siarad yn effeithiol ac er bod geirfa Gymraeg y plant yn datblygu'n dda, nid yw`n datblygu`n ddigonol ar hyn o bryd. Gwneir defnydd da iawn o wahanol feysydd dysgu, gan gynnwys yr ardal tu allan i gymell y plant, i osod problemau ac i ddatblygu eu sgiliau meddwl.

Mae'r addysgu yn rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y plant ac i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio eu sgiliau TG. Mae cyfleoedd hefyd i blant ymarfer eu sgiliau creadigol ac i ddysgu am bethau byw.

Mae diwylliant a thraddodiadau Cymru yn cael eu dathlu trwy drafod Cymry enwog, symbolau o Gymru a gweithgareddau dydd Gŵyl Dewi. Mae hyn, ynghyd â dathliadau o ddiwylliannau eraill, er enghraifft Divali a'r flwyddyn newydd Tsieineaidd, yn gyflwyniad gwerthfawr i wybodaeth plant o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill.

Mae`r plant yn dysgu am ailgylchu a chynaliadwyedd trwy gompostio bwydydd sydd dros ben a defnyddio compost yn eu gardd.

Mae ymweliadau â'r ardal leol, fel archfarchnad a gorsaf dân, ac ymwelwyr â'r lleoliad, er enghraifft, ffermwr a ddaeth mewn ag oen ifanc i`r plant ei weld, yn ehangu profiadau`r plant ymhellach.

Mae'r lleoliad wedi datblygu cofnodion unigol deniadol o waith y plant.  Mae yna hefyd gofnod manwl o gyflawniad pob plentyn sy`n canolbwyntio'n dda ar gaffael sgiliau.  Mae'r proffiliau hyn yn rhoi darlun clir o gryfderau pob plentyn a'r meysydd i'w datblygu.  Nid yw gwybodaeth o'r fath yn cael ei defnyddio'n gyson, fodd bynnag, i fod yn sail i`r cynllunio fel bod y gweithgareddau yn cyfateb yn dda i anghenion plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad ddarpariaeth dda ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant, a'u datblygiad ysbrydol, foesol, cymdeithasol a diwylliannol.  Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn llwyddo i feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, rhannu, tegwch a pharch at ei gilydd.  Mae`r staff yn wyliadwrus i sicrhau bod plant yn gwybod y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir ac i weithredu'n unol â hynny. Mae`r plant, ar bob adeg ac yn y gweithgareddau gwahanol, yn cael eu hannog i fod yn hunangynhaliol, i ddatblygu eu hannibyniaeth a`u hunan-hyder.  Mae`r plant hefyd yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drafod eu teimladau.

Mae amser cinio yn achlysur cymdeithasol gwerth chweil pan fydd staff a'r plant yn eistedd gyda'i gilydd ac yn siarad.  Mae`r achlysur yn cael ei defnyddio`n dda i bwysleisio pa mor bwysig yw bwyta ac yfed yn iach a phwysigrwydd cynaliadwyedd. Mae`r trefniadau i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn briodol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd diogel. Mae`r drysau allanol yn cael eu cadw dan glo gan sicrhau nad oes unrhyw un yn medru dod i mewn yn ddirybudd neu adael heb i`r staff wybod.  Mae'r ardaloedd allanol o fewn ffiniau`r lleoliad a`r bolltau`r ar y gatiau ar gau bob amser. Tu allan, mae`r plant yn cael eu goruchwylio bob amser gan y staff.  Mae`r staff yn ofalus drwy sicrhau bod y plant yn gadael gyda phersonau maen nhw`n eu hadnabod.  Mae`r polisïau sy'n ymwneud â diogelu plant yn eu lle ac mae`r staff yn ymwybodol o weithdrefnau a phersonél yn ôl yr angen.

Nid oes unrhyw blant yn bresennol ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae'r staff yn ymwybodol o`r gweithdrefnau sydd yn eu lle i gefnogi plant o'r fath os oes angen.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar, cynnes a chefnogol lle mae`r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn gyfartal ac yn deg.  Mae ganddo ethos cadarnhaol lle mae`r plant yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion, lle maen nhw`n cael eu trin â pharch a`u hanghenion unigol yn cael eu cydnabod.  Mae`r staff yn dangos agwedd gynnes, gyfeillgar tuag at y plant sydd eu hunain yn dangos graddfa uchel o foddhad o fod yn y lleoliad.

Mae gan y staff gymwysterau addas i gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.  Mae'r amgylchedd yn cael ei addasu'n dda i ysgogi a chefnogi dysgu`r plant ac yn darparu cyfleoedd creadigol i blant ymgolli yn eu profiadau dysgu.

Mae cyflenwad digonol o adnoddau priodol.  Mae'r ddarpariaeth y tu allan yn gwella'r profiadau sydd ar gael ar gyfer y plant ac yn rhan o raglen gynlluniedig o weithgareddau.  Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn helaeth ac mae trefniadau da ar waith i sicrhau y gall yr offer gael ei roi i ffwrdd mewn cwpwrdd storio yn gyflym.  Mae'r mannau arddangos cyfyngedig yn cael eu hategu gan sgriniau symudol sy'n gweithredu fel byrddau arddangos yn ogystal â gwahanu meysydd gweithgaredd dysgu.

Mae gweithdrefnau priodol yn eu lle i alluogi staff i gael cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach.  Mae cyrsiau o'r fath yn cael eu gwerthuso o ran sut y gall y wybodaeth gael ei defnyddio i wella'r ddarpariaeth.  Mae hyn wedi bod yn hynod effeithiol, fel wrth dynnu sylw at strategaethau ymddygiad cadarnhaol.

Mae sylw da wedi ei roi i ddatblygu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.  Mae'r lleoliad yn adlewyrchu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen gyda ffocws cryf ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y plant gyda'r pwyslais presennol ar ddatblygu'r iaith Gymraeg.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r ddau arweinydd yn deall eu rolau ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm.  Maen nhw`n dangos gweledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ddarparu'r ddarpariaeth orau posibl i hyrwyddo lles plant a'u cyflawniad.  Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau o ddydd i ddydd o ran datblygu sgiliau`r plant gan gynllunio`n gydweithredol er mwyn darparu profiadau diddorol i'r plant.

Yn yr amser byr mae`r arweinwyr wedi bod yn eu swyddi, mae`r arweinwyr wedi bod yn weithgar yn asesu ac yn gwella'r ddarpariaeth.  Maen nhw wedi ymgymryd ag ymarfer hunanwerthuso gan nodi'n glir y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.  Mae yna hefyd systemau ar waith i fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth.  Er mai dim ond yn ddiweddar mae mentrau o'r fath wedi cael eu rhoi yn eu lle, mae llawer wedi'i gyflawni.  Mae'r ardal addysgu wedi cael ei newid yn llwyr a`r ardal gweithgareddau tu allan wedi`i datbltgu.  Mae cyrsiau hyfforddi proffesiynol hefyd wedi cael effaith amlwg ar y ddarpariaeth, er enghraifft mae`r strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy`n cael eu defnyddio wedi bod yn effeithiol iawn wrth sefydlu ethos da iawn yn y lleoliad.  Agwedd dda o`r hyfforddiant proffesiynol yw`r gwerthusiad o gyrsiau o'r fath a sut y maen nhw`n effeithio ar y lleoliad.  Mae hyn wedi cynnwys cyfeirio`r cynllunio fel bod mwy o bwyslais ar ddysgu sy`n canolbwyntio ar y plentyn.  Nododd yr holl staff eu bod yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Mae cyfraniad y Pwyllgor Rheoli yn effeithiol iawn wrth gynnal a datblygu'r lleoliad. Mae'r Pwyllgor Rheoli wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn hunanarfarnu a chynllunio datblygiadol. Drwy gyswllt a thrafod rheolaidd maen nhw`n cael eu hysbysu'n dda ac mae ganddynt drosolwg o waith y lleoliad. Mae eu disgwyliadau uchel o`r lleoliad yn cael eu gwireddu i raddau helaeth iawn. Maen nhw wedi sicrhau bod y lleoliad yn bodloni gofynion deddfwriaethol.

Mae'r lleoliad wedi rhoi blaenoriaeth briodol i flaenoriaethau lleol a Chenedlaethol gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac mae bellach yn canolbwyntio`n dda ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'r lleoliad hefyd wedi elwa o gyngor ac awgrymiadau sy`n cael eu rhoi gan staff cymorth yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae`r ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd bob dydd yn rhannu syniadau ac yn chwilio am ffyrdd o wella'r ddarpariaeth o ddydd i ddydd.

Mae trafodaethau yn arwain at newidiadau rheolaidd a gwelliannau mewn ymarfer sy'n cael effaith fuddiol iawn ar ddarpariaeth y lleoliad ac o ganlyniad ar safonau cyflawniad y plant a`u lles.

Mae'r ardal addysgu wedi cael ei newid yn llwyr er mwyn darparu ardaloedd gweithgaredd sydd â ffocws da ar gyfer datblygu dysgu'r plant. Er enghraifft, mae ardal ddeniadol i blant i edrych ar lyfrau, bwrdd marcio ac ysgrifennu, mannau gwrando ac ardal gweithgaredd rhifedd.

Mae'r ardal y tu allan yn y broses o gael ei datblygu, ond ar hyn o bryd mae`n darparu amgylchedd dysgu gwerth chweil ac yn ei cael ei defnyddio'n dda i atgyfnerthu sgiliau rhifedd y plant, er enghraifft. Mae ardal yr ardd yn fuddiol wrth ddatblygu syniad y plant am dyfu a gofalu am bethau byw.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn rhan weithredol o`r hunanarfarnu a`r cynllunio ar gyfer gwella. Mae dogfen hunanarfarnu'r lleoliad yn adolygiad cynhwysfawr o gryfderau a blaenoriaethau presennol y lleoliad ar gyfer gwelliant. Mae'n seiliedig ar y meini prawf sydd gan Estyn ac yn dangos yn glir y sail dystiolaeth ar gyfer y datganiadau sy`n cael eu gwneud.

Mae cynllun gwella'r lleoliad wedi'i seilio'n gadarn ar flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae`n cynnwys manylion perthnasol, gan gynnwys amserlen, person cyfrifol, costau, meini prawf llwyddiant a gweithdrefnau monitro a gwerthuso. Fodd bynnag, er ei fod yn rhoi arweiniad gwerthfawr a gwerth chweil i'r hyn sy'n angenrheidiol, nid yw`r targedau yn cael eu blaenoriaethu ac nid yw`r meini prawf llwyddiant yn canolbwyntio'n ddigonol ar y gwelliant yn safonau cyflawniad y plant a`u lles.

Mae ymarferwyr yn awyddus i wella eu sgiliau proffesiynol gan gynnwys eu gallu yn yr iaith Gymraeg. Mae pob un wedi cael hyfforddiant a chefnogaeth ac o ganlyniad mae eu sgiliau yn gwella wrth iddynt fagu hyder i ddefnyddio'r iaith.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad bartneriaethau gwerth chweil sydd yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant.

Mae partneriaeth buddiol gyda rhieni. Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal a phryder sy`n cael eu dangos gan y staff ac maen nhw`n falch o'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol cyn i'w plentyn ddechrau yn y lleoliad ac maen nhw`n cael cyfleoedd i ymweld ac i drafod unrhyw faterion gyda'r staff. Mae'r lleoliad yn annog rhieni i fod gyda'u plentyn yn ystod y cyfnod ymgartrefu. Anogir rhieni i gymryd rhan weithredol yn nysgu eu plant, er enghraifft, maen nhw`n derbyn taflenni cyfieithu i gefnogi'r dysgu`r Gymraeg.

Mae cysylltiadau buddiol wedi`u sefydlu`n dda gyda`r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol. Mae`r plant yn ymweld â'r ysgolion ac yn mynychu cyngherddau Nadolig yn yr ysgolion. Erbyn i'r plant adael y lleoliad maen nhw wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r lleoliad yn elwa`n sylweddol o`r gefnogaeth weithredol gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi cynnwys cyngor ac awgrymiadau gyda ffocws da o ran sefydlu'r arfer dda sy`n amlwg yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn ymateb yn dda iawn i gyngor o'r fath. Mae`r gefnogaeth gan swyddog Mudiad Meithrin i ddatblygu`r iaith Gymraeg yn cynyddu sgiliau iaith Gymraeg yr ymarferwyr a`u hyder i ddefnyddio'r iaith. Ar y cyfan, mae'r partneriaethau hyn yn llwyddiannus iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a dysgu`r plant.

Mae ymweliadau â lleoliadau eraill wedi darparu syniadau sydd wedi cael eu defnyddio'n dda.

Mae partneriaethau cymunedol, fel gyda'r gwasanaeth tân a'r ffermwr lleol, yn darparu profiadau gwerthfawr i'r plant ac yn datblygu eu dealltwriaeth o bobl sy'n gweithio yn eu cymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn sicrhau bod y lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Mae gan y staff gymwysterau priodol ac mae gan y lleoliad adnoddau da i gefnogi dysgu'r plant. Yn y cyfnod byr ers cymryd drosodd, mae'r arweinwyr wedi goruchwylio newidiadau sy'n darparu'r plant â chwricwlwm gwell sy`n llawn dychymyg. Mae`r adnoddau wedi'u cyfateb yn dda i anghenion y plant ac yn cefnogi eu dysgu. Mae`r disgwyliadau yn uchel ac mae aelodau unigol o staff wedi mynychu cyrsiau proffesiynol perthnasol i wella eu cymhwysedd. Mae hyn wedi bod yn effeithiol wrth wella eu haddysgu ac ansawdd y profiadau dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn goruchwylio'r gyllideb ac o ystyried y ddarpariaeth o ansawdd da, lles y plant a'r gofal a'r cyfarwyddyd a ddarperir, barnwyd bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr  arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |